**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1288
Ein cyf/Our ref LW/02238/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

01 Rhagfyr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Tachwedd yn ymwneud â Deiseb P-06-1288 Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn llwyddiant cyflym.

Rwy'n rhannu awydd y gymuned i symud ymlaen yn gyflym ar welliannau rheilffyrdd. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd hyn yn bennaf yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y seilwaith hwn sydd heb ei ddatganoli. Gallaf eich sicrhau bod tîm cyflenwi Trafnidiaeth Cymru sydd â'r dasg o symud ymlaen â'r gwaith ym Magwyr yn gweithio cyn gynted â phosibl.

Mae'r Uned wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer gwella capasiti Prif Linell De Cymru a fyddai'n galluogi gorsafoedd newydd arni, fel ym Magwyr. Mae'r gwaith hwnnw bellach yn mynd rhagddo i lywio'r camau nesaf o wneud penderfyniadau.

Mae gwaith dylunio gorsaf ar gyfer Magwyr hefyd yn datblygu'n gyflym. Rwy'n cael gwybod bod Cadeirydd Bwrdd Cyflawni Burns, Simon Gibson CBE, wedi cytuno i gwrdd eto â Grŵp Gweithredu Rheilffordd Magwyr yn ystod yr wythnosau nesaf i rannu diweddariadau ar ddyluniad yr orsaf a'r gwaith gwella ehangach ar y rheilffordd.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.